**Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru**
**Cyfarfod rhithwir**
**Dydd Iau 2 Rhagfyr 2021**

## Cofnodion

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AS | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (Cadeirydd) |
| Simon Hart, Aelod Seneddol | Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Asim Hafeez | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu a Strategaeth Ryngwladol a Domestig, y Swyddfa Gartref |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Pam Kelly | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Carl Foulkes | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Claire Parmenter | Prif Gwnstabl Dros Dro Heddlu Dyfed Powys |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Alun Michael | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Emma Wools | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Lee Jones | Prif Weithredwr Dros Dro Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Jon Drake | Cyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru |
| Gary Haggaty | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru |
| Tracey Breheny | Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Cyffuriau a Grwpiau sy'n Agored i Niwed Llywodraeth Cymru |
| Lynne Neagle AS | Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant |
| Judith Paget | Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Emma Thomas | Pennaeth y Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol |
| Alun Davies | Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Jamie Kaijaks | Ysgrifennydd Preifat, Swyddfa'r Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru |
| Peter Kellam | Uwch-Ysgrifennydd Preifat, Swyddfa'r Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru |
| Gethin Jones | Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Siân Brown | Uwch-Reolwr y Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Jayne Phillips | Tîm Troseddau a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Tîm Troseddau a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru |
| Chris Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Ruth Meadows | Dirprwy Gyfarwyddwr – Yr Is-adran Dysgu Digidol |
| Sarah Capstick | Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel CLlLC |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLlLC |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Gaynor Maddox | Rheolwr y Rhaglen Cydweithio Rhanbarthol (cofnodion) |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Sian Curley | Prif Weithredwr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Carys Morgans | Pennaeth Staff Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |

<u>Ymddiheuriadau</u>

| | |
|---|---|
| Jeff Cuthbert | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Reg Kilpatrick | Cyfarwyddwr Cyffredinol Ymateb Covid-19, Llywodraeth Cymru |
| Amy Rees | Cyfarwyddwr Cyffredinol Profiant y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru |

| **Materion yn codi o'r cyfarfod** |
|---|
| Naomi Alleyne i gymryd rhan yn y cyflwyniadau ar Ddigartrefedd a fydd hefyd yn cynnwys y Cynllun Gweithredu ar Ddigartrefedd a'r dull o atal digartrefedd (Llywodraeth Cymru) |
| Y Gweinidog Newid Hinsawdd i gael gwahoddiad i'r cyfarfod nesaf |
| Nodyn i'r rhai a fydd yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn sicrhau y caiff papurau a chyflwyniadau eu cynnwys a'u gweld yn gynnar (7 diwrnod cyn cyfarfod y bwrdd) |
| Tracey Breheny i gyfarfod â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn er mwyn trafod Cynllun Peilot i dreialu Ystafell Triniaeth â Chymorth Herion yn ardal Heddlu Dyfed Powys |

## 1. Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

1.1 Croesawodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yr holl aelodau i gyfarfod y Bwrdd, gan groesawu Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r cyfarfod.

1.2 Nododd Simon Hart y byddai Kit Malthouse, Gweinidog Gwladol dros Droseddu a Phlismona yn y Swyddfa Gartref yn bresennol yn y cyfarfod y disgwylir iddo gael ei gynnal ar 17 Mawrth 2022. Gofynnodd i'r Bwrdd godi unrhyw faterion cyn y cyfarfod â'r Gweinidog gan ychwanegu bod y Swyddfa Gartref ac eraill yn awyddus i weld y fforwm yn ffynnu.

1.3 Nododd Mr Hart nad oedd y sefyllfa o ran yr ardoll brentisiaethau wedi newid ond bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud a'i fod yn hyderus y byddent mewn sefyllfa i symud ymlaen erbyn y cyfarfod nesaf.

1.4 Nododd Mr Hart yr eitem ar yr agenda ar gamddefnyddio sylweddau gan dynnu sylw at ymweliad yr Ysgrifennydd Gwladol ag Abertawe i gael y wybodaeth ddiweddaraf am Brosiect ADDER a ddangosodd i'r Ysgrifennydd Gwladol a'i thîm pa mor effeithiol yw'r hyn sy'n gweithio yng Nghymru.

1.5 Nododd Mr Hart fod cyfarfod cadarnhaol wedi'i gynnal â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn a oedd yn dangos yn glir lwyddiant cydweithio yng Nghymru a Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, gan ychwanegu bod y Bwrdd yn dda am bwyso a mesur yr heriau.

1.6 Rhoddodd Mr Hart y wybodaeth ddiweddaraf am grant yr Heddlu gan ychwanegu bod disgwyl iddo gael ei benderfynu'n derfynol a'i gyhoeddi yn Nhŷ'r Cyffredin cyn gwyliau'r Nadolig.

## 2. Gwella Diogelwch Menywod a Merched yng Nghymru

2.1 Rhoddodd y Prif Gwnstabl Pam Kelly gyflwyniad i'r Bwrdd ar ddull Glasbrint Cymru gan ychwanegu bod y dull gweithredu hwn wedi'i gynnig yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mehefin ac wedi cael cefnogaeth gyffredinol gan bawb a oedd yn bresennol. Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Kelly fod y Glasbrint yn gydgyfrifoldeb o ran ei gyflawni ledled Cymru.

2.2 Gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Dioddefwyr a Chyflawnwyr, tynnodd y Prif Gwnstabl Kelly sylw at y problemau cymdeithasol a'r angen i wasanaethau cyhoeddus gefnogi'r rhaglen.

2.3 Pwysleisiwyd pa mor bwysig ydyw bod gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i edrych at yr agenda atal, ynghyd â'r problemau cymdeithasol a wynebir ar hyn o bryd, pwysigrwydd y dull glasbrint a'r effaith ar ymddiriedaeth y cyhoedd a phlismona.

2.4 Tynnodd y Prif Gwnstabl Kelly sylw at ddiogelwch menywod a'r tactegau y mae'n rhaid i fenywod eu defnyddio er mwyn teimlo a chadw'n ddiogel gan ychwanegu, er bod gwaith yn mynd rhagddo i adfer ymddiriedaeth y cyhoedd, fod angen gwneud mwy a bod angen i bartneriaid chwarae rôl weithredol ochr yn ochr â'r heddlu. Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru rôl allweddol i'w chwarae.

2.5 Tynnodd y Prif Gwnstabl Kelly sylw at y lefelau uwch o weithgarwch craffu, gan gyfeirio at ganlyniadau cyfiawnder a gwaith gyda Byrddau Cyfiawnder Troseddol ond gan nodi bod awydd pendant yng Nghymru i ddatblygu'r gwaith hwn, gyda rhaglenni i gyflawnwyr yn cael eu hystyried.

2.6 Cadarnhaodd y Prif Gwnstabl Kelly fod y Dirprwy Brif Gwnstabl Maggie Blyth yn ystyried y mater hwn yn genedlaethol ar ran Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Mae'r gwaith yng Nghymru yn arwain yn hyn o beth ac, er ei fod yn ehangach ei gwmpas, mae'n cyd-fynd â'r gwaith cenedlaethol sy'n cael ei wneud. Nid yw Cymru yn dyblygu'r ymdrech genedlaethol ond mae'n ei chyflymu.

2.7 Parhaodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Emma Wools â'r cyflwyniad gan ychwanegu fod Plismona yng Nghymru, mewn ymateb i nifer o faterion cyfredol, wedi sefydlu tasglu er mwyn ysgogi gweithredu a newid sy'n cael ei gefnogi'n llawn gan yr heddlu a phartneriaid.

2.8 Ychwanegodd Ms Wools fod rhaglen newid enfawr a sawl maes allweddol â blaenoriaeth yn dilyn ymrwymiad i ddull gweithredu i Gymru gyfan. Ychwanegodd Ms Wools fod sefydlu'r tasglu yn golygu bod modd rhannu mwy o arferion da a gwersi a ddysgwyd ond bod yr anghysondeb rhwng data'r heddlu a data iechyd yn broblem ac yn wahanol o ran risg a'r ymateb cywir.

2.9 Pwysleisiodd Ms Wools bwysigrwydd sicrhau cytundeb ar set ddata i Gymru gyfan yn ogystal ag ystyried data ehangach sydd ar gael gan y byddai hyn yn creu sail fwy cadarn i adeiladu'r glasbrint arni.

2.10 Gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllid, ychwanegodd Ms Wools fod rhywfaint o gyllid wedi'i ddyfarnu ond mae sawl maes lle nad yw cyllid wedi'i nodi er bod bregusrwydd a risgiau i'w cael.

2.11 Mae cyfathrebu yn ffactor allweddol ac mae angen dull mwy strategol o ymdrin ag ymgyrchoedd cyfathrebu a'r hyn a ddysgwyd o negeseuon allweddol. Mae bylchau yn ein cyd-ddealltwriaeth ac mae aelodau'r tasglu yn gobeithio gwella hyn.

2.12 Wrth grynhoi, ychwanegodd Ms Wools mai dull system gyfan yw hwn lle mae swyddogion Llywodraeth Cymru, y sector plismona a phartneriaid yn cydweithio'n agos â'i gilydd. At hynny, roedd y gwaith wedi arwain at ffocws ar blant a phobl ifanc ac i ba raddau yr ystyrir bod trais yn ymddygiad wedi'i normaleiddio, gyda'r gwaith hefyd yn ystyried hil, amrywiaeth a diwylliant.

2.13 Wrth gloi'r cyflwyniad, dangosodd Ms Wools y camau nesaf mewn sleidiau a oedd yn cynnwys llywodraethu, plant a phobl ifanc, cyfathrebu a gwneud y defnydd gorau o'r dulliau a'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan. Ychwanegodd Ms Wools fod angen ymrwymiad cryf a chytundeb rhannu data i Gymru gyfan ynghyd ag ymrwymiadau cyllidebol tymor hwy.

2.14 Diolchodd y Gweinidog i'r Prif Gwnstabl Kelly a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools am y cyflwyniad gan ychwanegu bod y Glasbrint yn newid sylweddol gwirioneddol o ran mynd i'r afael â'r epidemig o drais yn erbyn menywod a merched a throseddau casineb.

2.15 Cododd Joanne Hopkins fater amrywiaeth cymunedau yng Nghymru gan ychwanegu bod yr hyb cymorth a'r adroddiad, 'Adolygiad o Dorri Tir Newydd', yn sicrhau dealltwriaeth dda o nifer o faterion ond bod nerfusrwydd ynglŷn â glasbrintiau fel terminoleg a phwysleisiodd bwysigrwydd y ffordd y mae hyn yn cael ei gyfleu. (Ceir dolen i'r adroddiad i gael gwybodaeth isod).

https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2021/08/Uncharted-Territory-Rapid-Review-Cym-final2.pdf

2.16 Ychwanegodd Ms Hopkins mai un effaith yw bod pobl yn lladd eu hunain o ganlyniad i gam-drin domestig a bod hyn yn rhan o'r gwaith o ran y normau a'r diwylliant hefyd. Mae effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin domestig yn hytrach na dim ond bod yn dyst iddo.

2.17 Cadarnhaodd Chris fod gan y cysyniad gefnogaeth lawn Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a bod llawer o waith da eisoes yn cael ei wneud megis prosiect WISDOM y gellir adeiladu arno. Ychwanegodd Mr Jennings y gellid gwneud mwy ac y dylem geisio dylanwadu ar eraill y tu hwnt i'n rolau ein hunain gan gynnwys staff a'n teuluoedd ein hunain. Mae'r gallu o fewn y grŵp i gael llawer mwy o ddylanwad ac effaith ar gymdeithas.

2.18 Ychwanegodd Asim Hafeez fod y math hwn o drosedd yn cael ei dderbyn i ryw raddau a bod rhannau o gymdeithas lle mae'r ymddygiadau hyn yn cael eu derbyn a'u normaleiddio. Cadarnhaodd Mr Hafeez fod gan y cyfryngau ac ysgolion ran fawr i'w chwarae yn y ffordd rydym yn dylanwadu ar bobl. Mae gan rai pobl sy'n dod i fyw i'r wlad hon ganfyddiad gwahanol, meddylfryd diwylliannol gwahanol a sut rydym yn nodi nad yw hwn yn norm yn ein gwlad.

2.19 Diolchodd Prif Gwnstabl Kelly i aelodau'r grŵp am eu holl gefnogaeth gan nodi y byddai'n werth trafod ein sefyllfa bresennol fel cymdeithas a chyfeirio at bwysigrwydd sgwrsio a meddylfryd o ran casineb at fenywod. Mae a wnelo â sicrhau cydbwysedd rhwng pwyntio'r bys ac yn ogystal â gwneud ein hunain yn agored i niwed ac ymddwyn yn ddewr yn ein gweithredoedd.

2.20 Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod wedi cyfarfod â Maggie Blyth, sef Arweinydd Cenedlaethol penodedig yr Heddlu ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched ledled Cymru a Lloegr. Ychwanegodd Ms Hutt ei bod wedi'i chalonogi, mewn sgyrsiau, gan y ffaith bod yr hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni yng Nghymru yn cael ei gydnabod ac mai dyma ddechrau cydberthynas waith barhaus gref â holl arweinwyr Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

2.21 Cadarnhaodd y Gweinidog mai'r Glasbrint yw'r ffordd gywir ymlaen ac y byddai datganiad yn cael ei wneud yn y Senedd ddydd Mawrth (07.12.2021) yn cyhoeddi Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched a fydd yn destun ymgynghoriad a fydd yn para deufis.

2.22 Nododd y Gweinidog fod llais y dioddefwr, sef pobl â phrofiadau uniongyrchol, yn hanfodol ac mai cyfrifoldeb trawslywodraethol yw hwn a bod pob rhan o'r Llywodraeth yn gwybod bod ganddynt rôl i'w chwarae wrth gefnogi'r pum mlynedd nesaf o VAWDASV. Ychwanegodd MS Hutt fod y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwysig yn lleol er mwyn sicrhau bod pob partner yn gefnogol ac yn ddiolchgar am y gwaith y mae'r tasglu wedi'i wneud.

2.23 Cadarnhaodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Eleri Thomas fod y cyflwyniad wedi dangos penderfyniad arweinwyr yr heddluoedd yng Nghymru gan ychwanegu bod dull gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig iawn a bod angen i bawb ddeall ymddygiad amhriodol. Croesawodd Ms Thomas y gefnogaeth a'r sgyrsiau am ddata iechyd a gynhelir y tu allan i'r cyfarfod.

2.24 Ychwanegodd Judith Paget, mewn perthynas â data iechyd, fod y GIG yn sefyll gyda phartneriaid a'i fod yn awyddus i gymryd rhan.

2.25 Ychwanegodd y Gweinidog fod angen ymgysylltu â'r Comisiynydd Pobl Hŷn i drafod mater cam-drin pobl oedrannus hefyd, ynghyd ag asiantaethau a phartneriaid sy'n gyfrifol am geiswyr lloches a ffoaduriaid er mwyn cynnwys holl gynrychiolwyr cymdeithas.

## 3. Gwella'r Dull Partneriaeth er mwyn Atal Niwed o Ganlyniad i Gamddefnyddio Sylweddau

3.1 Agorodd y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan y drafodaeth gan gadarnhau y byddai her a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2019 yn cael ei hailystyried.

3.2 Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Vaughan fod pandemig COVID-19 wedi bod yn gyfnod anodd i bob parti a'i fod yn ddiolchgar am yr ymateb i drafodaethau blaenorol a thrwy'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Marwolaethau'n Gysylltiedig â Chyffuriau. Ychwanegodd, er bod y bartneriaeth yn gryf, nad yw'r her wedi diflannu gyda data yn awgrymu bod niwed a chamddefnyddio sylweddau yn mynd yn fwy heriol.

Gadawodd Simon Hart AS y cyfarfod ar yr adeg hon.

3.3 Agorodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dave Thorne y cyflwyniad.

3.4 Dangosodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne, o ganlyniad i bandemig COVID-19, y bu rhai newidiadau i'r farchnad gyffuriau gan dynnu sylw at y cynnydd sylweddol a lefelau trais.

3.5 Cadarnhaodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne, er bod strategaeth ar waith, fod gwasanaeth yr heddlu yn gobeithio ei diweddaru ynghyd â chysylltiadau partneriaeth ledled Cymru. Mae'r cynnydd mewn lefelau trais yn golygu bod angen mabwysiadu dull gweithredu mwy cyfannol; nid gorfodi yw'r unig ddull gweithredu gyda'r cynllun peilot yn Abertawe yn dangos rhan o'r hyn sydd ei angen.

3.6 Amlinellodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf mewn sleidiau yn ogystal â'r cynnydd mewn gweithgarwch 'llinellau cyffuriau', proffiliau cyffuriau sy'n newid a'r defnydd o Niche, trefniadau gweithio agosach â phartneriaid ac asiantaethau a'r gallu i ddefnyddio negeseuon o adroddiadau tocsicoleg yn gyflym. Ychwanegodd fod y pedwar heddlu yng Nghymru yn rhannu strategaethau lleol.

3.7 Ychwanegodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn fod pŵer anferth yn deillio o'r hyn a gyflwynwyd a'i fod yn cynrychioli'r sefyllfa bresennol. Mae heddluoedd a phartneriaid mewn sefyllfa i gyflwyno ar lefel y Llywodraeth a diolchodd Mr Llywelyn i'r grŵp am yr holl ymdrech roeddent wedi'i gwneud mewn perthynas â'r gwaith hwn. Ychwanegodd fod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar bawb ond bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

VAWDASV a chamddefnyddio sylweddau yn hanfodol bwysig, nid yn unig ym maes plismona, ond hefyd i bob partner.

3.8 Gofynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn a yw'r trefniadau llywodraethu presennol yn addas at y diben ac yn y cyd-destun ehangach, a ydym yn cyfleu'r negeseuon cywir, beth arall y gellir ei wneud ac a yw'r hyn rydym yn ei wneud yn ddigon pellgyrhaeddol?

3.9 Tynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn sylw at natur flaengar y strategaethau yng Nghymru a'r cyd-destun a'r ddealltwriaeth o'r cyllid sy'n gysylltiedig â hyn, gan roi Ymgyrch Adder fel enghraifft. Ychwanegodd y dylid cadw'r Adolygiad o Gyffuriau gan y Fonesig Carol Black a'r Strategaethau Cyffuriau newydd a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref mewn cof

3.10 Gofynnwyd ble roedd y Bwrdd/Cymru arni o ran sylweddau y gellir eu chwistrellu megis heroin a'r awydd i ymgymryd â mentrau megis Triniaeth â Chymorth Heroin.

3.11 Roedd erthygl heriol wedi'i hysgrifennu gan y Prif Gwnstabl Richard Lewis (a fydd yn cymryd swydd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys yn fuan) yn myfyrio ar y profiad o Driniaeth â Chymorth Heroin yn ardal Cleveland lle mae wedi bod yn gwasanaethu fel Prif Gwnstabl yn ddiweddar.

3.12 Gofynnodd y Gweinidog am sylwadau.

3.13 Diolchodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne am y cyflwyniad gan ychwanegu ei bod yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol iawn, yn enwedig y wybodaeth am y marchnadoedd a fyddai'n cael eu bwydo i mewn i'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar Farwolaethau'n Berthynol i Gyffuriau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei defnyddio'n helaeth, gan gyfeirio at bwysigrwydd parhau â gwaith trawslywodraethol yn y maes hwn.

3.14 Ychwanegodd Ms Neagle fod y dull gweithredu yng Nghymru yn seiliedig ar iechyd a lleihau niwed a'i bod yn awyddus i barhau â hyn yng Nghymru.

3.15 Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref ar Brosiect ADDER ond dywedodd ei fod yn siomedig nad oedd y Swyddfa Gartref yn darparu cyllid iechyd fel roedd yn ei wneud gyda phrosiectau ADDER eraill yn Lloegr, yn enwedig pan oedd y cyllid hwn yn adnodd ychwanegol gan Drysorlys EM.

3.16 Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog fod Uwchgynhadledd y DU ar Gyffuriau wedi pwysleisio bod y dull lleihau niwed yn hanfodol a bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau ymgysylltu da â'r Swyddfa Gartref i drafod y Strategaeth Cyffuriau newydd gan nodi bod cais i gael gwybod am yr hyn y mae'r Swyddfa Gartref yn bwriadu ei wneud wedi'i gyflwyno heb ymateb, a oedd yn siomedig.

3.17 Cyfeiriodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Alun Michael at Brosiect ADDER gan nodi, cyn i'r Swyddfa Gartref ddarparu cyllid, fod Cymru wedi ceisio gwneud pethau'n wahanol oherwydd y nifer mawr o farwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau yn ardal Bae Abertawe, y cyfeiriwyd atynt yn 2019. Datganwyd bod hwn yn ddigwyddiad difrifol ar y pryd ond mae'r sefyllfa yn yr ardaloedd wedi gwella ers hynny. Canmolodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael yr arweinyddiaeth a ddangoswyd yn ardal Caerdydd a'r Fro gan y Cyfarwyddwr, gan sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn gyflymach drwy waith ddylunio ar y cyd a chydnabod bod hwn yn faes heriol. Ychwanegodd Mr Michael fod mwy i hyn na chyfuno gwasanaethau a'i bod yn ymwneud hefyd â'r ffordd rydym yn cydweithio i newid ymddygiadau ac agweddau pobl.

3.18 Ychwanegodd Emma Thomas (mewn sylwadau sgwrsio) fod troseddwyr cyfundrefnol bob amser yn ceisio gwneud elw drwy gyflenwi cyffuriau; cyhyd ag y bydd galw am gyffuriau bydd grwpiau troseddau cyfundrefnol yn parhau i addasu er mwyn osgoi'r risg y cânt eu canfod ac yn parhau i achosi diflastod a lefelau uchel o niwed. Mae angen mynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â'r galw am gyffuriau a bod yn barod i ystyried gweithgareddau sy'n cynnwys triniaethau â chymorth heroin a mannau diogel i gymryd cyffuriau.

3.19 Ychwanegodd Tracey Breheny y byddai'n codi'r materion gyda'r Byrddau Iechyd ac y bydd yn cyfarfod â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn y tu allan i'r cyfarfod er mwyn trafod beth y gellir ei wneud a'r goblygiadau.

## 4. Cyfarfod Plismona yng Nghymru

4.1 Ymhlith y meysydd yr ymdriniwyd â nhw yn sesiwn y bore blaenorol roedd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan gynnwys cysylltiadau â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u cyfrifoldebau.

4.2 Trafodwyd Cydraddoldeb Hiliol, gyda'r sector plismona yn arwain llawer o'r gwaith hwn ynghyd â'r sector Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, hyfforddiant gyda Race Council Cymru ac uchelgais i gynnal Archwiliad Hil ochr yn ochr â pharodrwydd i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y Strategaeth.

4.3 Trafodwyd Pwysau'r Gaeaf ac ystyrir bod hon yn broblem barhaus gydag adroddiadau yn sicrhau dealltwriaeth well ac yn rhoi mwy o eglurder ynghylch beth yw'r problemau gan gynnwys adroddiadau meintioledig sy'n dangos y gorlif o asiantaethau eraill. At hynny, problem y rhif 101 yn cael ei ddefnyddio fel rhif diofyn ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau e.e., iechyd meddwl.

4.4 Diolchodd y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan i Judith Paget am eu cyfarfod diweddar i drafod pwysau'r gaeaf ac am ddangos rhai o'r llwybrau cyn uwchgyfeirio sy'n gam cadarnhaol ymlaen.

4.5 Gan ymateb i hynny, nododd Judith Paget fod y sector Iechyd yn ymwybodol o'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus i ateb y galw am wasanaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a rhai nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19 a'i fod yn ddiolchgar i'r heddlu am ddod i'r adwy a'i gefnogi. Nododd y pwysau penodol ar Ymddiriedaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r cymorth gan y Lluoedd Arfog, gan ychwanegu mai'r gobaith yw, wrth i'r pwysau barhau, y bydd camau sydd wedi'u cymryd yn helpu i leihau'r pwysau hynny a bod uwchgyfeirio yn lleol yn bwysig iawn.

4.6 Ychwanegodd y Gweinidog fod y disgwyliadau o ran y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, y bwriedir ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd, yn uchel.

4.7 Cododd Naomi Alleyne fater y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, gan ychwanegu bod rhai plant yn mynd ar goll am nad ydynt mewn lleoliad priodol a bod hyn yn peri risg i blant. Ychwanegodd Ms Alleyne iddi drafod y defnydd o westai yng Nghymru a phryderon roedd wedi'u codi gyda'r Swyddfa Gartref. Mae'r llais cyfunol yng Nghymru wedi cael effaith gadarnhaol o ran sicrhau bod ein cymunedau yn cael eu diogelu a'u cynorthwyo a phwysleisio pwysigrwydd Cymru fel cenedl noddfa i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed ac mewn perygl.

4.8 Ategodd y pwyntiau a godwyd gan Ms Alleyne a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru ac mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni i gyd weithio'n galed i'w sicrhau. Ychwanegodd Ms Hutt fod trefniant gwirfoddol yng Nghymru a bod pryderon hefyd wedi'u codi gan Lywodraeth yr Alban sy'n ysgrifennu at y Swyddfa Gartref.

4.9 Rhoddodd Asim Hafeez y wybodaeth ddiweddaraf am y broses o greu swydd newydd yn y Swyddfa Gartref a fydd yn ystyried y system ehangach ar gyfer ceiswyr lloches. Bydd deiliad y swydd yn gweithio'r gyda'r tair gwlad ddatganoledig er mwyn sicrhau bod y broses yn iawn mewn cydberthnasau ymfudo yn y dyfodol.

## 5. Diweddariadau gan Bartneriaid yn ôl Eithriad

5.1 Cyfeiriodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Alun Michael at bapur a ddosbarthwyd ymlaen llaw gan nodi bod y Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol wedi gwneud gwaith ardderchog mewn cyfnod anodd iawn a bod hyn yn dangos arweinyddiaeth wirioneddol gan y sector plismona, llywodraeth leol a phartneriaid.

5.2 Cyfeiriodd y Gweinidog at sylwadau o'r Sesiwn Lawn ar waith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'u cyfraniad yn ystod pandemig COVID-19, gan nodi eu bod yn hynod o bwysig.

5.3 O ran y fframwaith prentisiaethau, cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar y mater hwn ar hyn o bryd.

## 6. Unrhyw Fater Arall

6.1 Ni ddatganwyd unrhyw fater arall.

## Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dydd Iau 17 Mawrth 2022    13:30- 15:30